

## Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Maldwyn Jones (Cefn Berain) sydd bellach yn yr Inffirmari, ac Elsa Evans (Llanefydd) a Peter Jones (Groes) – y tri ohonynt wedi treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Dymunwn wellhad buan iddynt a chyflwynwn hwy i ofal tyner ein Duw, gan hyderu y cânt adnabod Ei holl dangnefedd yn gwarchod drostynt.

## Gweu i blant y byd

Un o'r syniadau a ddaeth trwy'r Rhaglen Dorcas ac sydd wedi ennyn diddordeb rhai o'r Ofalaeth hon yw gweu hetiau 'beanie' er mwyn eu rhoi mewn bocsys esgidiau gydag anrhegion eraill ar gyfer y cynllun *Operation Christmas Child*. Bwriad y cynllun yw arddangos cariad Duw i blant mewn angen ar draws y byd. Holwch un o'r blaenoriaid i gael copi o'r patrwm, neu medrwch gael copi gan Mair. Mwy o fanylion i ddilyn ynglŷn â sut y bwriedir casglu a dosbarthu'r hetiau.



## I ddod

- **Bore Coffi Chwiorydd Tan y Fron** bore Sadwrn, Gorffennaf 6ed am 10.00 yng Nghanolfan y Gymuned Clwt. Elw at wahanol achosion da yr ardal.
- **Adnabod Cymdeithasol** – Taith Gerdded Hamddenol nos Fercher, Gorffennaf 17eg. Cychwyn ger y capel yn Henllan am 6.30.
- **Cwrs Ieuenctid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 29ain–Awst 2il. Gweler isod.
- **Anrhefn Awst (8-11 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 12fed–15fed. Gweler isod.
- **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 17eg – 23ain. Gweler isod.

Cysylltwch â Choleg y Bala am fwy o fanylion ac i archebu lle ar unrhyw un o'u cyrsiau (01678 520565). Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu unrhyw un o'r cyrsiau, ac os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 pellach. Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).

## Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23<sup>ain</sup> Mehefin 2013

**Darlleniad y Dydd**

Ioan 12:20–26

(BCND tud.116 / BCN: tud.107)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw. Wythnos yn ôl bu dathlu mawr yng Nghefn Meiriadog a braf iawn oedd cael bod yno yn rhannu llawenydd y dydd. Wrth arwain Oedfa'r Fro yno nos Sul darluniodd Eryl y gwirionedd am Iesu sef nad ydyw yn heneiddio! Yr un yw Crist ddoe, heddiw ac yn dragywydd. Er mwyn darlunio hyn dewisiodd Eryl ddangos hen luniau (a diolch i Llinos am drefnu arddangosfa ddi-ddorol o luniau teulu'r eglwys dros y blynyddoedd) a dangos fel y mae pobl wedi newid a'r lluniau'n troi'n ddu a gwyn. Trwy droi lluniau'r aelodau a gymerwyd y pnawn hwnnw hyd yn oed yn ddu a gwyn fe ddaeth y neges yn glir fod pob eiliad o'n hamser ni wedi mynd yn hanes yn syth. Ond y mae Iesu yn aros yr un ddoe, heddiw ac am byth – tydi ei lun o ddim yn troi yn ddu a gwyn ond yn aros yn llawn lliw am byth.

Cafwyd dwy oedfa bregethu – Hywel Meredydd a Rhodri Glyn, a the i'w ryfeddu rhwng y ddau gyfarfod. Diolch i bawb a fu'n trefnu, yn darparu ac yn gweini ac i'r Arglwydd am ddiwrnod braf i bawb gael mwynhau. Mae Mr Meurig Owen wrthi'n golygu hanes yr achos a diolch hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu at y llyfr. Edrychwn ymlaen at gael pori drwyddo.

Ond pwy fydd yma'n dathlu'r 200 mlynedd tybed, a beth fydd stori'r hanner can mlynedd nesa? A fydd yna weinidog a thîm gweinidogaethol yn eistedd i lawr i gael tynnu eu llun hefo blaenoriaid, aelodau a phlant yn 2063? Un peth sy'n sicr o greu'r Gair a ddaeth mor glir i ni gan Eryl ydi y bydd Iesu'n cael ei addoli ac na fydd o wedi newid. Ein gobaith a'n dyhead dros bob un o eglwysi'r Fro ydi y bydd Iesu yn Arglwydd ar fywydau llawer eto i'r dyfodol 'hyd nes y daw', ac y bydd y genhedlaeth nesaf yr un mor ffyddlon yn galw pobl at Grist, yn arwain yr Ysgolion Sul, yr Oedfaon a'r Cyfarfodydd Gweddi a holl weinidogaeth Crist yn eu cenedlaeth hwy er gogoniant iddo.

Ac wrth ystyried y dyfodol, gweddiwn dros Gwawr Davies (Cefn Meiriadog) heddiw wrth iddi baratoi i fynd draw i Mizoram, India i gael profiad gwaith yn ysgolion a chartrefi plant amddifad yn Durtlang, a thros Catrin Pritchard hefyd wrth iddi hi gael profiad o weithio hefo cleifion yn yr Ysbyty yno ac yn Grace Home, sy'n hospis i'r rhai sy'n cael triniaeth HIV. Fe fydd yn brofiad bythgofiadwy i'r ddwy a diolchwn am eu hymroddiad ac am y croeso sy'n eu haros.

Rydym wedi cytuno beth amser yn ôl yng nghyfarfod blaenoriaid y Fro i geisio dolennu'r Fro hefo'r capel yn Durtlang a byddaf yn anfon llythyr trwy law Gwawr i wahodd gweinidog a swyddogion ac aelodau'r capel a'r Ysgol Sul yno i gyfathrebu hefo ni fel y down i adnabod ein gilydd yn well ac i addoli a gwasanaethu'r Arglwydd hefo'n gilydd ar draws y byd! Iesu, nad yw byth yn heneiddio yw Arglwydd yr holl fyd, ac, o'r darlleniad heddiw dywed: "lle bynnag yr wyf fi, yno hefyd y bydd fy ngwasanaethwr." (Ioan 12: 26)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **Cwrs Rhianta** yn y Granar, Llansannan am 7.45 dan arweiniad Sian Edwards ac Elinor Owen
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- lau • **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn • **Diwrnod Arbennig i Flaenoriaid** yng Nghapel Tegid, Y Bala. Cysylltwch â Mair neu e-bostiwrch [rhian.h@hotmail.co.uk](mailto:rhian.h@hotmail.co.uk) am fwy o fanylion.

Sul nesaf

### **i-Grist** am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysy'r Ofalaeth, yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni

### **Steffan Morris**

*(Gweithiwr Plant, Ieuencid a Theuluoedd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy)*

Yn ystod y gwasanaeth, bydd y plant cynradd a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar, ac yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu. *(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)*

**Cyflwyniadau:** Os oes cyflwyniadau creadigol i gyd-fynd efo'r gwaith llafar, a wnaiff Arolygwyr yr Ysgolion Sul gysylltu â Mair cyn dydd Mercher, os gwelwch yn dda?

**Parcio:** Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

**Cadair Olwyn:** Os dymunwch ddefnyddio'r gadair olwyn sydd yn y capel, rhowch wybod i Mair ymlaen llaw neu un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

### **Oedfa o Fawl** am 6:00

Oedfa'r hwyr i holl eglwysy'r Ofalaeth yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan gyda rhai o ieuencid y Fro yn cymryd rhan. Byddwn hefyd yn clywed gair o brofiad, a bydd digon o ganu emynau hen a newydd.

*Sylwch ar yr wybodaeth uchod o ran y gadair olwyn a'r parcio, os gwelwch yn dda.*

## Cyhoeddiadau

### **Llanfair a Chefn Meiriadog**

Sul yma Bydd y Parch Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### **Llansannan**

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa bydd Aron, mab bach Meurig a Lisa Davies yn cael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Mawrth Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 7.30.

lau Cinio'r Jangl am 12.00.

### **Tanyfron a Nantglyn**

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yna am 3.30, bydd Cyfarfod Eglwys ar gyfer aelodau Tanyfron yng Nghanolfan Gymunedol Clwt.

Rhag-hysbys Yn ystod yr oedfa ar Orffennaf 7fed, fe fydd yr eglwys yn Nhanyfron yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

### **Saron a Pheniel**

Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd cyfle hefyd i ddod ag unrhyw roddion i'r Banc Bwyd. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### **Henllan a Groes**

Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### **Llanefydd a Chefn Berain**

Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y plant yn cyflwyno y Gwaith Llafar. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.

### **Eglwysi Bro Aled**

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**